Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cyllid atodol (Elfen 3) 2025/26

**Dyddiad:** 25 Mehefin 2026
**Cyfeirnod:** Medr/2026/27

**At:** Sefydliadau addysg bellach yn Lloegr sy'n cefnogi dysgwyr sy'n hanu o Gymru â lefel uchel o anghenion

**Ymateb erbyn:** Nid oes angen ymateb
**Rhagor o wybodaeth:** Gareth Lanagan | buddsoddiadamonitro@medr.cymru


**Crynodeb:**

Cyllid atodol (Elfen 3) yw'r cyllid atodol a ddarperir gan Medr i gefnogi dysgwyr sy'n hanu o Gymru sydd â lefel uchel o  anghenion ac sy'n astudio mewn sefydliad addysg bellach (AB) yn Lloegr.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

1. Cyllid atodol (Elfen 3) yw'r cyllid atodol a ddarperir gan Medr i gefnogi dysgwyr sy'n hanu o Gymru sydd â lefel uchel o anghenion ac sy'n astudio mewn sefydliad AB yn Lloegr.

2. Mae'n berthnasol lle bo cost y gefnogaeth addysgol sydd ei hangen yn fwy na'r hyn y gellir ei dalu'n rhesymol drwy ddarpariaeth graidd (Elfen 1) a chyfraniad cymorth dysgu ychwanegol tybiannol y darparydd o £6,000 (Elfen 2). Mae elfennau 1, 2 a 3 yn cyfeirio at fframwaith cyllido anghenion lefel uchel yr Adran Addysg yn Lloegr, sy'n strwythuro cyllid i ddysgwyr ag anghenion cymorth dysgu ychwanegol.

3. Bwriedir i gyllid Elfen 3 dalu cost cymorth addysgol sydd wedi'i bersonoli, sydd wedi'i asesu ac y ceir tystiolaeth ar ei gyfer. Fe'i dyfernir ar sail dysgwr a enwir, ac ni cheir ei ddefnyddio fel ffactor wrth benderfynu derbyn dysgwr ai peidio. Cytunir ar gyllid drwy broses ymgeisio flynyddol ffurfiol. Mae angen cadw tystiolaeth glir o angen a chost i ddibenion archwilio, ac mae'r cyllid yn destun monitro ac adolygu parhaus i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol a chymesur a'i fod yn canolbwyntio ar addysg a deilliannau.

**Symiau cyllido 2025/26**

| Sefydliad addysg bellach | Swm y cyllid atodol | Nifer y dysgwyr a gefnogir drwy gyllid atodol |
|---|---:|---:|
| Coleg Swydd Gaerloyw | £6,417.64 | 1 |
| Coleg Celfyddydau Henffordd | £7,147.50 | 2 |
| Coleg Reaseheath | £15,433.78 | 5 |
| Coleg Swydd Gaer – De a Gorllewin | £5,541.42 | 1 |
| Coleg Swydd Henffordd, Llwydlo a Gogledd Swydd Amwythig (HLSNC) | £107,824.35 | 11 |
| Coleg Amwythig | £7,894.16 | 4 |
| **Cyfanswm** | **£150,258.85** | **24** |

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government